TGAU

# CBAC TGAU Dawns

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 1b - Ebrill 2026



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Dawns sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer TGAU Dawns o fis Medi 2026 a thu hwnt.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau'r broses o gael caniatâd i ddefnyddio'r deunyddiau hyn. Os yw hyn yn peri unrhyw bryder i'r cyhoeddwr neu barti arall sydd â diddordeb, cysylltwch â ni a byddwn yn gweithredu'n briodol.

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Limited 2025.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 1b | Cysoni termau ar sail adborth gan Canolfan Bedwyr.<br><br>Mân ddiwygiadau yma ac acw er mwyn eglurder. | drwyddi draw |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU ..... 5
1 CYFLWYNIAD ..... 7
1.1 Nodau ..... 7
1.2 Cwricwlwm i Gymru ..... 7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 8
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ..... 8
1.5 Defnyddio iaith ..... 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 9
2 CYNNWYS Y PWNC ..... 10
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 10
Uned 1 ..... 10
Uned 2 ..... 13
Uned 3 ..... 16
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ..... 20
3 ASESU ..... 21
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ..... 21
3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad ..... 22
4 CAMYMDDWYN ..... 24
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ..... 25
5.1 Cofrestru ..... 25
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ..... 25
Atodiad A: Dyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig ..... 26
Atodiad B: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 29

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU DAWNS

# CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Coreograffi**
**Asesiad Di-arholiad**
**40% o'r cymhwyster**
**Cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC**
**96 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Ymateb i ysgogiadau a osodir gan CBAC, sy'n cael ei asesu gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Bydd yr ysgogiadau ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd yr ysgogiadau'n cael eu newid yn flynyddol.

Bydd dysgwyr yn creu, datblygu a mireinio darn o goreograffi. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu Log Adfyfyriol o'r broses hefyd, mewn fformat heb ei ragnodi. Gall dysgwyr ddewis a fyddant yn perfformio yn y darn y byddant yn ei goreograffu. Gall dysgwyr goreograffu darn ar gyfer dawnsiwr unigol neu ar gyfer grŵp (2-5 dawnsiwr).

**Uned 2: Perfformio**
**Asesiad Di-arholiad**
**30% o'r cymhwyster**
**Cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC**
**72 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Bydd dysgwyr yn perfformio **dau** ddarn o repertoire. Mae'n rhaid i'r darnau hyn fod o wahanol arddulliau/genres. Bydd gan ddysgwyr y dewis a'r hyblygrwydd i ddewis eu darnau i'w perfformio ar gyfer yr uned hon, ond ni ddylai dysgwyr berfformio rhan benodol o'r gweithiau gosod a ddewisir gan y ganolfan ar gyfer Uned 3. Rhaid i un perfformiad fod yn berfformiad unigol a gall yr ail berfformiad gael ei gyflwyno yn unigol neu fel rhan o grŵp (2-5 dawnsiwr).

**Uned 3: Gwerthfawrogiad Dawns**
**30% o'r cymhwyster**
**Arholiad digidol yn unig 1 awr 45 munud**
**72 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, wrth ymateb i'r gweithiau gosod a'r gweithiau heb eu gweld o'r blaen.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Cymhwyster llinol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Gellid cwblhau Uned 1 ac Uned 2 ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd a'u cyflwyno i CBAC yn y flwyddyn astudio olaf. Fodd bynnag, rhai i ganolfannau sicrhau bod asesiad Uned 1 ac Uned 2 yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol. Rhaid i Uned 3 gael ei chwblhau yn y flwyddyn astudio olaf.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2028.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/5167/3

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU DAWNS

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Dawns yn cefnogi dysgwyr i:

- archwilio dawns sydd wedi cael ei chreu a'i pherfformio gan bobl eraill a datblygu eu doniau eu hunain mewn dawns
- meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o ffurfiau, genres, arddulliau, technegau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno dawns, yn ogystal ag elfennau dawns
- datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o sut mae ystyr yn cael ei gyfathrebu drwy ddawns
- ymateb i weithiau dawns gan eraill ac adfyfyrio arnynt, gan gymhwyso gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd y syniadau a’r technegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr
- datblygu sgiliau corfforol, technegol a mynegiannol i gyfleu bwriad coreograffig a dangos rheolaeth
- datblygu sgiliau creadigol drwy ymchwilio i goreograffi ac arbrofi gydag ef mewn ymateb i amrywiaeth eang o ysgogiadau, a chyfleu ystyr yn bwrpasol
- adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a'i fireinio a’i werthuso
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Dawns hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol i'r pwnc a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 20; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Mae'r cymhwyster TGAU Dawns yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - archwilio eu gwaith creadigol eu hunain a gwaith pobl eraill, er mwyn iddyn nhw fynd i'r afael â genres, technegau, offer, deunyddiau ac arferion a'u galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
  - archwilio eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain yn ogystal â rhai pobl, llefydd a chyfnodau eraill. Drwy hyn gallant ddarganfod sut gellir defnyddio dawns i ffurfio a mynegi hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol
  - dysgu sut gall sgiliau pwysig o fireinio a dadansoddi gyfrannu at eu datblygiad creadigol.

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb drwy ddawns mewn amgylchedd diogel
  - gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill
  - dysgu a mireinio gwahanol fathau o wybodaeth a sgiliau, gan gynnwys y technegau, y prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i greu a dehongli
  - dangos defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau presennol i gyd-destunau newydd.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer y maes hwn[3] drwy roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys
  - meithrin dealltwriaeth o berfformio, coreograffi a gwerthfawrogiad ar draws amrywiaeth o arddulliau.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Dawns ymhellach. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Dawns i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

---

[1] Celfyddydau Mynegiannol: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – Hwb (llyw.Cymru)
[2] Celfyddydau Mynegiannol: Egwyddorion cynnydd – Hwb (llyw.Cymru)
[3] Celfyddydau Mynegiannol: Cynllunio eich cwricwlwm – Hwb (llyw.cymru)

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.
- Mae 'Mae'n ofynnol i ddysgwyr' yn golygu bod angen dangos gofynion unedau unigol.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

## Uned 1

**Coreograffi**

Asesiad Di-arholiad
40% o'r cymhwyster
Cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
96 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu ymwybyddiaeth o'r broses goreograffig o greu dawns
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran hunanwerthuso, mireinio a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu ymdeimlad o goreograffu at bwrpas penodol
- ysbrydoli dysgwyr i archwilio coreograffi o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau amrywiol ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau gwahanol yng Nghymru a'r byd.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio prosesau coreograffig, deunydd symudiad, arddulliau a thechnegau a ddefnyddir gan eraill i ddatblygu eu sgiliau coreograffi eu hunain mewn dawns. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio amrywiaeth, gan gynnwys gwahanol safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau sy'n cwmpasu Cymru a'r byd.
- **creu** – bydd dysgwyr yn creu eu dawns wreiddiol eu hunain mewn arddull o'u dewis. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau creadigol drwy arbrofi ac ymchwilio i goreograffi. Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn mireinio eu coreograffi gan ddefnyddio dyfeisiau a strwythurau coreograffig i wireddu eu bwriadau artistig.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn ymateb i ysgogiad a fydd wedi'i bennu gan CBAC ac yn mireinio eu gwaith drwy adfyfyrio i greu cynnyrch gorffenedig.

Bydd y dysgwyr yn cael dewis o ran pa ysgogiad i’w ddewis o'r rhai a osodir gan CBAC. Gallant ddewis a fyddant yn perfformio yn y darn y byddant yn ei goreograffu. Bydd dysgwyr yn gweithio'n annibynnol i goreograffu darn ar gyfer dawnsiwr unigol neu ar gyfer grŵp (2-5 dawnsiwr). Mae amser y perfformiad fel a ganlyn:

- Perfformiad unigol: 1 munud 30 eiliad – 2 funud
- Perfformiad grŵp (2-5 dawnsiwr): 2 – 4 munud

**Meysydd cynnwys**

| **1.1 Coreograffi** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.1.1 Creu a datblygu syniadau i wireddu bwriadau artistig<br>1.1.2 Datblygu a mireinio deunydd symudiad<br>1.1.3 Gwireddu eu coreograffi mewn perfformiad byw<br>1.1.4 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 1.1.1<br>Creu a datblygu syniadau i wireddu bwriadau artistig | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• (yn dilyn archwilio amrywiaeth o ffurfiau, genres, arddulliau, technegau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno dawns) creu a datblygu syniadau i wireddu bwriadau artistig o fewn darn wedi'i goreograffu.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• greu darn mewn ymateb i ysgogiad a osodir gan CBAC. |
| 1.1.2<br>Datblygu a mireinio deunydd symudiad | Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• ddatblygu a mireinio darn wedi'i goreograffu<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• mireinio a datblygu deunydd symudiad wedi'i ysbrydoli gan yr ysgogiad, gan adeiladu ar eu harchwiliad cychwynnol<br>• cymhwyso cydrannau craidd coreograffi (perthynas, gweithred, dynameg a gofod (RADS))<br>    • perthynas<br>    • gweithred<br>    • dynameg<br>    • gofod<br>• cymhwyso dyfeisiau coreograffig, er enghraifft:<br>    • olrediad<br>    • ailadrodd<br>    • newid tempo<br>    • rhythm<br>    i wella eu deunydd symudiad.<br>• cymhwyso dyfeisiau strwythurol, er enghraifft:<br>    • datblygu motiffau<br>    • symud fel un |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | <ul><li>canon</li><li>cyferbynnu</li><li>amlygu</li></ul>i wella eu deunydd symudiad.<ul><li>cymhwyso strwythurau coreograffig, er enghraifft:<ul><li>dwyran</li><li>teiran</li><li>rondo</li><li>strwythurau episodig</li></ul>i greu darn wedi'i goreograffu'n gydlynol.</li></ul>*D.S. Mae enghreifftiau pellach o ddyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig i'w cael yn* *Atodiad A*. |
| 1.1.3<br>Gwireddu eu coreograffi mewn perfformiad byw | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<ul><li>gwireddu eu darn wedi'i goreograffu ar gyfer cynulleidfa, gan arddangos eu syniadau creadigol a'u bwriad artistig.</li></ul> |
| 1.1.4<br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<ul><li>adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a'i ddadansoddi a’i werthuso</li><li>gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ac effaith eu:<ul><li>hymateb i'r ysgogiad</li><li>penderfyniadau creadigol a wnaed wrth ddatblygu eu coreograffi</li><li>defnydd o ddyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig.</li></ul></li></ul> |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 2

**Perfformio**

Asesiad Di-arholiad
30% o’r cymhwyster
Cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- ysbrydoli dysgwyr i archwilio repertoire dawns amrywiol a darparu cyfleoedd i ddewis darnau yr hoffent eu perfformio o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau amrywiol ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau, safbwyntiau a chyfraniadau gwahanol yng Nghymru a'r byd
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau technegol a pherfformio drwy adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain mewn cylchred barhaus o ymarfer a gwella
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr berfformio'n unigol ac fel rhan o grŵp, a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddod yn hyfedrus
- darparu cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau personol hunanwerthuso, gwydnwch, penderfynoldeb a hyder.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio dawns a gaiff ei chreu a'i pherfformio gan bobl eraill a datblygu eu sgiliau eu hunain mewn dawns.
- **creu** – bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau corfforol, technegol a mynegiannol i ddehongli a chyfleu bwriad coreograffig a dangos rheolaeth.

Bydd dysgwyr yn perfformio **dau** ddarn o repertoire. Rhaid i'r darnau gael eu coreograffu gan ymarferwr proffesiynol. Gall ymarferwyr proffesiynol fod yn ddawnswyr proffesiynol, yn athrawon dawns neu'n goreograffwyr. Mae'n rhaid i'r darnau hyn fod o wahanol arddulliau/genres. Bydd gan ddysgwyr y dewis a'r hyblygrwydd i ddewis eu darnau i'w perfformio ar gyfer yr uned hon, ond ni ddylai dysgwyr berfformio rhan benodol o'r gweithiau gosod ar gyfer Uned 3. **Rhaid** i un perfformiad fod yn berfformiad unigol a gall yr ail berfformiad gael ei gyflwyno yn unigol **neu** fel rhan o grŵp. Mae amser y perfformiad fel a ganlyn:

- Perfformiad unigol: 1 munud 30 eiliad – 2 funud (rhaid i'r dysgwr fod yn rhan weithredol o'r perfformiad o flaen cynulleidfa fyw am o leiaf 1 munud 30 eiliad)
- Perfformiad grŵp (2-5 dawnsiwr): 2 – 4 munud (wrth berfformio mewn grŵp, rhaid i bob dawnsiwr fod yn rhan weithredol o'r perfformiad am o leiaf 1 munud 30 eiliad).

Sylwer, mae *bod yn rhan weithredol o'r perfformiad* yn golygu bod yn rhan uniongyrchol o'r perfformiad a chyfrannu ato.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Perfformio** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>2.1.1 Dehongli a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br>2.1.2 Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio mewn perfformiad byw | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 2.1.1<br>Dehongli a datblygu syniadau i gyfleu ystyr | Dylai dysgwyr ddeall y sgiliau a'r technegau a ddefnyddir gan wahanol goreograffwyr o amrywiaeth o wahanol arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau, safbwyntiau a chyfraniadau gwahanol yng Nghymru a'r byd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y sgiliau a'r technegau a ddefnyddir gan y coreograffydd/coreograffwyr o'u dewis.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• (yn dilyn archwilio amrywiaeth o berfformiadau dawns proffesiynol perthnasol o wahanol arddulliau/genres, themâu, diwylliannau a chyfnodau amser) dehongli a datblygu rhannau penodol o ddau ddarn wedi'u coreograffu.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• berfformio **dau** ddarn o repertoire. Mae'n rhaid i'r darnau hyn fod o wahanol arddulliau/genres (rhaid i un perfformiad fod yn berfformiad unigol a gall yr ail berfformiad gael ei gyflwyno yn unigol neu fel rhan o grŵp).<br><br>(Dylai canolfannau nodi nad oes angen i bob dysgwr yn y grŵp addysgu ddewis yr un darn i'w berfformio). |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 2.1.2<br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio mewn perfformiad byw | Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau perfformio mewn perfformiad byw o ddau ddarn o wahanol arddulliau/genres.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dangos y sgiliau corfforol gofynnol fel sy'n briodol i'r arddull/genre a ddewiswyd, gan gynnwys:<br>  ◦ cryfder<br>  ◦ cydbwysedd<br>  ◦ hyblygrwydd<br>  ◦ ystwythder<br>  ◦ rheolaeth<br>  ◦ stamina<br>  ◦ egni.<br><br>• dangos y sgiliau technegol gofynnol fel sy'n briodol i'r arddull/genre a ddewiswyd, gan gynnwys:<br>  ◦ ymddaliad<br>  ◦ aliniad<br>  ◦ cydsymud<br>  ◦ troedwaith<br>  ◦ lleoli'r breichiau<br>  ◦ cerddoroldeb<br>  ◦ rhythm<br>  ◦ amseru.<br><br>• dangos y sgiliau mynegiannol gofynnol fel sy'n briodol i'r arddull/genre a ddewiswyd, gan gynnwys:<br>  ◦ mynegiant wyneb<br>  ◦ ffocws<br>  ◦ dynameg<br>  ◦ cyfleu eu dehongliad o fwriad y coreograffydd<br>  ◦ ymgysylltiad cynulleidfa<br>  ◦ cyfrannu at y perfformiad cyffredinol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 3

**Gwerthfawrogiad Dawns**

Arholiad digidol yn unig
30% o'r cymhwyster
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae dawns yn cael ei datblygu, ei choreograffu a'i pherfformio drwy gyd-destun gweithiau gosod a gwaith sydd heb ei weld o'r blaen
- archwilio dawns broffesiynol o arddulliau/genres, cyfnodau/cyd-destunau amrywiol ac sy'n gysylltiedig â diwylliannau gwahanol yng Nghymru a'r byd
- datblygu iaith ddisgrifio a dadansoddi dawns
- datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu drwy ddawns.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a gwerthfawrogi dawns wedi'i datblygu a'i pherfformio mewn detholiad o arddulliau, wedi'i chyflwyno mewn gwahanol gyd-destunau, a gydag amrywiaeth o fwriadau a phwrpasau. Bydd yr archwiliadau hyn yn gysylltiedig â'r gweithiau dawns gosod o'u dewis a gweithiau heb eu gweld o'r blaen gan gynnwys amrywiaeth o ddarnau dawns o arddulliau/genres cyferbyniol, cyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol, gweithiau wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru, a gweithiau a ysgrifennwyd gan amrywiaeth eang o goreograffwyr a chwmnïau, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng nodweddion cyfansoddol dawns, sut cawsant eu datblygu a'u creu, a gwerthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr ar gyfer y gweithiau dawns gosod a'r gweithiau dawns heb eu gweld o'r blaen.

Bydd dysgwyr yn astudio **tri** darn o waith gosod ar gyfer Uned 3. Bydd dysgwyr yn astudio'r gwaith gosod yng Ngholofn 1, yn dewis **un** gwaith gosod o Golofn 2 ac **un** gwaith gosod o Golofn 3. Bydd gwaith sydd heb ei weld o'r blaen hefyd yn cael ei gynnwys yn yr arholiad digidol.

| **Colofn 1 – Gorfodol** | **Colofn 2 – Gweithiau hirach (dros awr o hyd)** | **Colofn 3 – Gweithiau byrrach (20 – 40 munud)** |
|---|---|---|
| Rhaid i bob dysgwr astudio **"*Rygbi: Annwyl (Dear*)*"*** gan Fearghus Ó Conchúir a pherfformwyr Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru | Rhaid i ganolfannau ddewis **un** o'r canlynol:<br>1. **The Mad Hatter's Tea Party** gan ZooNation – The Kate Prince Company (Coreograffwyd gan Kate a'r Cwmni)<br>2. **Fagin's Twist** gan Avant Garde Dance (Coreograffwyd gan Tony Adigun)<br>3. **Pinocchio** gan Jasmin Vardimon | Rhaid i ganolfannau ddewis **un** o'r canlynol:<br>1. **Dust** gan Akram Khan ar gyfer English National Ballet<br>2. **Ripple** gan Xie Xin ar gyfer The Ballet Boyz<br>3. **Henge** gan Motionhouse |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Meysydd cynnwys

**3.1 Gwerthfawrogiad Dawns**

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:
3.1.1 Nodweddion cyfansoddol dawns
3.1.2 Syniadau creadigol a phwrpas i gyfleu ystyr a bwriadau
3.1.3 Sut i adfyfyrio ar y syniadau a'r technegau a ddefnyddir i wireddu bwriadau creadigol, a gwerthuso'r syniadau a'r technegau hynny

| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
|---|---|
| 3.1.1<br>Nodweddion cyfansoddol dawns | Dylai dysgwyr allu nodi a disgrifio, gan ddefnyddio terminoleg dawns, gwahanol nodweddion cyfansoddol dawns.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall deunydd symudiad gan gynnwys:<br>• symudiadau'r dawnswyr<br>• perthnasoedd rhwng y dawnswyr<br>• gweithredoedd y corff<br>• dynameg<br>• gofod a sut mae'n cael ei ddefnyddio gan y dawnswyr<br>• y math/mathau o ddawns a ddefnyddir<br>• arddulliau/genres dawns<br>• dyfeisiau a strwythur coreograffig.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y lleoliad ffisegol, gan gynnwys:<br>• set a phropiau<br>• goleuo<br>• gwisgoedd<br>• dylunio set<br>• llwyfannu, er enghraifft:<br>    • bwa proseniwm<br>    • ymwthiol<br>    • dawnsio ar gyfer camera<br>    • safle-benodol<br>    • awyr agored.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y lleoliad clywedol a ddefnyddir, gan gynnwys:<br>• testun<br>• sgôr<br>• cerddoriaeth. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 3.1.2<br>Syniadau creadigol a phwrpas i gyfleu ystyr a bwriadau | Dylai dysgwyr ddeall syniadau creadigol a phwrpas y gwaith gosod a ddewiswyd i gyfleu ystyr a bwriadau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• thema/pwrpas y darn dawns<br>• yr ysgogiad<br>• y gynulleidfa darged<br>• y cyd-destun<br>• bwriad y coreograffydd<br>• yr ystyr ymhlyg<br>• rôl y dawnsiwr.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y gwaith gosod, gan gynnwys:<br>• cymdeithasol<br>• diwylliannol<br>• cyd-destun hanesyddol<br>• confensiynau'r cyfnod.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall syniadau creadigol a phwrpas yn y gweithiau sydd heb eu gweld o'r blaen i gyfleu ystyr a bwriadau, gan gynnwys:<br>• pwrpas y darn dawns<br>• y cyd-destun<br>• yr ystyr ymhlyg. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 3.1.3<br>Sut i adfyfyrio ar y syniadau a'r technegau a ddefnyddir i wireddu bwriadau creadigol, a gwerthuso'r syniadau a'r technegau hynny | Dylai dysgwyr ddeall themâu/genres/arddulliau dawns.<br><br>Dylai dysgwyr allu adfyfyrio ar ddyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig y gwaith gosod a ddewiswyd, a'u gwerthuso, gan gynnwys:<br>• sut mae coreograffwyr yn datblygu deunydd grŵp/ensemble gyda dyfeisiau coreograffig, er enghraifft:<br>    • motiff<br>    • olrediad<br>    • ailadrodd<br>    • newid tempo<br>    • rhythm.<br>• sut mae coreograffwyr yn defnyddio dyfeisiau strwythurol, er enghraifft:<br>    • symud fel un<br>    • canon<br>    • cronni<br>    • drychweddu<br>    • gwaith cyswllt.<br>• y ffordd y mae strwythurau coreograffig yn cael eu defnyddio, er enghraifft:<br>    • naratif<br>    • episodig<br>    • dwyran<br>    • teiran<br>    • rondo.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall nodweddion coreograffydd y gwaith gosod a ddewiswyd.<br><br>Dylai dysgwyr allu adfyfyrio ar ddyfeisiau a strwythurau coreograffig yn y gweithiau heb eu gweld o'r blaen, a'u gwerthuso, gan gynnwys:<br>• sut mae coreograffwyr yn datblygu deunydd symudiad gyda dyfeisiau coreograffig, er enghraifft:<br>    • motiff<br>    • ailadrodd<br>    • cyferbynnu<br>    • amlygu<br>    • trawsymudiadau.<br><br>*D.S. Mae enghreifftiau pellach o ddyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig i'w cael yn* *Atodiad A**.* |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Dawns yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- profi perfformiad(au) proffesiynol a/neu weithdai, naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl yn annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch artistig
- cymryd risgiau creadigol a chael profiad o greu'n fyrfyfyr fel rhan o'r broses greadigol
- cymryd rhan mewn rhyw fath o berfformiad a/neu goreograffi cydweithredol
- meithrin ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel bo'n briodol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad B am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o berfformiadau a phrosesau coreograffig.

**AA2**
Datblygu a chymhwyso sgiliau technegol a pherfformio.

**AA3**
Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill a'i ddadansoddi a'i werthuso.

**AA4**
Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn coreograffi.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | - | - | 5% | 35% | 40% |
| Uned 2 | - | 30% | - | - | 30% |
| Uned 3 | 20% | - | 10% | - | 30% |
| Pwysoliad cyffredinol | **20%** | **30%** | **15%** | **35%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

**Uned 1: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:
- greu, datblygu a mireinio darn gwreiddiol o goreograffi mewn ymateb i ysgogiad a osodir gan CBAC.
- cynhyrchu log adfyfyriol.

Bydd y dysgwyr yn cael dewis o ran pa ysgogiad i'w ddewis o'r rhai a osodir gan CBAC. Gallant ddewis a fyddant yn perfformio yn y darn y byddant yn ei goreograffu. Gall dysgwyr goreograffu darn ar gyfer dawnsiwr unigol neu ar gyfer grŵp (2-5 dawnsiwr). Mae amser y perfformiad fel a ganlyn:
- Perfformiad unigol: 1 munud 30 eiliad – 2 funud
- Perfformiad grŵp (2-5 dawnsiwr): 2 – 4 munud

Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, **rhaid** i ganolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 96 o farciau.

Bydd yr ysgogiadau'n cael eu rhyddhau ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

**Uned 2: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:
- berfformio **dau** ddarn o repertoire. Mae'n **rhaid** i'r darnau hyn fod o wahanol arddulliau/genres.

Bydd dysgwyr yn perfformio **dau** ddarn o repertoire. Rhaid i'r darnau gael eu coreograffu gan ymarferwr proffesiynol. Gall ymarferwyr proffesiynol fod yn ddawnswyr proffesiynol, yn athrawon dawns neu'n goreograffwyr. Bydd gan ddysgwyr y dewis a'r hyblygrwydd i ddewis eu darnau i'w perfformio ar gyfer yr uned hon, ond ni ddylai dysgwyr berfformio rhan benodol o'r gweithiau gosod a ddewisir gan y ganolfan ar gyfer Uned 3. Rhaid i un perfformiad fod yn berfformiad unigol a gall yr ail berfformiad gael ei gyflwyno yn unigol neu fel rhan o grŵp. Mae amser y perfformiad fel a ganlyn:
- Perfformiad unigol: 1 munud 30 eiliad – 2 funud (rhaid i'r dysgwr fod yn rhan weithredol o'r perfformiad o flaen cynulleidfa fyw am o leiaf 1 munud 30 eiliad).
- Perfformiad grŵp (2-5 dawnsiwr): 2 – 4 munud (wrth berfformio mewn grŵp, rhaid i bob dawnsiwr fod yn rhan weithredol o'r perfformiad am o leiaf 1 munud 30 eiliad).

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Sylwer, mae *bod yn rhan weithredol o'r perfformiad* yn golygu bod yn rhan uniongyrchol o'r perfformiad a chyfrannu ato.

Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, **rhaid** i ganolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 72 o farciau.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Dawns.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau unedau asesiad di-arholiad yn gynharach yn y cwrs ond rhaid eu cyflwyno ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2028.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo'r marc asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwnnw'n is na'r cynnig blaenorol (oni bai bod y marc yn absennol).

Nodir y codau cofrestru isod:

| | Cod Cofrestru | |
|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **CBAC TGAU Dawns** | 3910QS | 3910CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Atodiad A: Dyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig

Gweler isod enghreifftiau o ddyfeisiau coreograffig, dyfeisiau strwythurol a strwythurau coreograffig. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

**Dyfeisiau Coreograffig**

Mae'r rhain yn ffyrdd o drin deunydd symudiad wrth ddatblygu motiffau. Mae motiff yn ystum neu'n gyfres o symudiadau nodedig a ailadroddir, a ddefnyddir i ddarparu thema neu syniad sy’n uno. Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys enghreifftiau o Ddyfeisiau Coreograffig:

- newid **Cefndir** – i ddylunio ffordd newydd y mae'r corff yn cyflwyno symudiad.
- newid **Wynebu** – i ba gyfeiriad y mae dawnsiwr yn ei wynebu wrth berfformio pob gweithred. e.e., lawr llwyfan, allan i'r gynulleidfa, tuag at ddawnsiwr arall neu ran o'r corff.
- newid **Grym** – y cryfder a ddefnyddir i berfformio'r gweithred.
- newid **Bwriad** – yr ystyr y tu ôl i'r symudiad.
- newid **Lefelau** – lle mae gweithred yn cael ei berfformio'n isel, yn y canol neu'n uchel.
- newid **Planau** – llinellau dychmygol sy'n ffurfio arwynebau gwastad sy'n croestorri drwy'r corff; llorweddol, fertigol, a saethol.
- newid **Ansawdd** – y disgrifiad o symudiadau e.e., cynaliedig, ergydiol, gohiriedig, swingio, crynu, llyfn, herciog, ymgwympol.
- newid **Rhythm** – strwythur patrymau symud mewn amser; symudiad gydag olyniaeth reolaidd o elfennau cryf a gwan; y patrwm a gynhyrchir gan bwyslais a hyd nodau mewn cerddoriaeth.
- newid **Maint** y gweithredoedd – i gywasgu neu ehangu symudiadau.
- newid **Llwyfannu** – lle mae dawnsiwr ar lwyfan. e.e., fyny llwyfan, lawr llwyfan, chwith llwyfan, de llwyfan.
- newid **Amser/Cyflymder/Tempo** – mae'n ymwneud â rhythm, brawddegu, tempo, acennu, a hyd. Gall amser fod wedi'i fesur fel mewn cerddoriaeth, neu fod yn seiliedig ar rythmau'r corff fel anadlu, emosiynau, a churiad y galon.
- defnyddio **Cronni** – neu gyfuno, adeiladu symudiadau drwy eu hychwanegu at ei gilydd. E.e. perfformio symudiad 1 yna 1 a 2 yna 1, 2 a 3.
- defnyddio **Cyfuno** – defnyddio 2 neu fwy o ddyfeisiau coreograffig ar yr un pryd. Gall hefyd fod yn ddilyniant o symudiadau dawns sy'n defnyddio gwahanol arddulliau, gweithredoedd y corff ac amseriadau.
- defnyddio **Darnio** – defnyddio rhan o fotiff yn unig, ynysu symudiadau, neu rannu gweithredoedd yn ganon.
- defnyddio **Ymgorffori** – ychwanegu symudiadau newydd neu ymgorffori symudiadau gwahanol neu newydd mewn motiff neu frawddeg.
- defnyddio **Offeryniaeth** – i berfformio symudiad gyda rhan wahanol o'r corff. Felly, gallai cylch gyda'r fraich droi'n rond de jambe neu'n gylch gyda'r goes.
- defnyddio **Gwrthdro** – symudiad a berfformir yn ochrol neu wyneb i waered.
- defnyddio **Addurniad** – ychwanegu addurniad at symudiadau e.e., siglo bysedd, ychwanegu symudiadau cylchu neu igam ogam at lwybrau.
- defnyddio **Ailadrodd** – dyblygu symudiad neu frawddegau symudiad o fewn coreograffi dawns.
- defnyddio **Olrediad** – i wrthdroi trefn dilyniant coreograffi dawns.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**Dyfeisiau Strwythurol**

Dyfeisiau Strwythurol yw sut mae symudiadau'n cael eu siapio. Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys enghreifftiau o Ddyfeisiau Strwythurol:

- defnyddio **Cronni** – ychwanegu symudiadau a/neu ddawnswyr at y perfformiad.
- defnyddio **Canon** – rhan, dilyniant symudiadau neu ddarn o gerddoriaeth lle mae'r rhannau yn cael eu gwneud yn olynol, gan orgyffwrdd â'i gilydd. Mae sawl math o 'ganon' e.e. canon ddilyniannol, canon gydamserol, canon orgyffwrdd, canon gronnol.
- defnyddio **Ategu** – i bwysleisio nodweddion tebyg; mewn dawns, symudiadau lle mae'r egni, neu'r defnydd o ofod (maint, cyfeiriad, lefel), neu'r defnydd o ddylunio (cymesur ac anghymesur, agored a chaeedig), neu'r amseru (cyflym ac araf, cyson ac anghyson), y themâu neu'r patrymau yn debyg.
- defnyddio **Gwaith cyswllt, rhoi pwysau a chodiadau** – gwrthbwyso, addasu symudiadau corff dawnswyr eraill, rhoi, cymryd a chynnal pwysau'r corff cyfan.
- defnyddio **Cyferbynnu** – i bwysleisio gwahaniaethau; mewn dawns, dau symudiad lle mae'r egni, neu'r defnydd o ofod (maint, cyfeiriad, lefel), neu'r defnydd o ddylunio (cymesur ac anghymesur, agored a chaeedig), neu'r amseru (cyflym ac araf, cyson ac anghyson), y themâu neu'r patrymau yn wahanol.
- defnyddio **Gwrthbwynt** – lle mae symudiadau neu themâu cyferbyniol yn cael eu perfformio ar yr un pryd gan wahanol ddawnswyr.
- defnyddio **Ffurfiannau** – lle mae dawnswyr yn cael eu gosod ar y llwyfan mewn perthynas â'i gilydd. Gall y rhain ffurfio patrymau fel llinellau, cromliniau, gwasgariadau a chylchoedd.
- defnyddio **Drychweddu** – tebyg i symud fel un ond mae'r dawnswyr yn defnyddio ochr arall y corff.
- defnyddio **Llwybrau** – llinell y mae person neu ran o'r person, fel braich neu ben, yn symud ar ei hyd e.e., cymerodd ei braich hi lwybr cylchol, neu fe deithiodd ef ar hyd llwybr igam ogam.
- defnyddio **Brawddegu** – y ffordd y mae symudiadau'n cael eu grwpio gyda'i gilydd, gan gynnwys defnyddio anadl, seibiau, a phwyslais.
- defnyddio **Trawsymudiadau** – sut mae un symudiad, brawddeg neu adran o ddawns yn symud ymlaen i'r nesaf; symudiad neu syniad sy'n cysylltu.
- defnyddio **Symud fel un** – symudiad dawns unfath sy'n digwydd ar yr un pryd mewn grŵp.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**Strwythurau Coreograffig**

Strwythur Coreograffig yw'r ffordd y mae darn dawns yn cael ei lunio neu ei drefnu; fframwaith cynhaliol neu rannau hanfodol o ddawns a elwir hefyd yn strwythur cyfansoddiadol, strwythurau dawns neu ffurf gyfansoddiadol.

- **Dwyran** – cyfansoddiad dawns sy'n cynnwys dwy ran: AB.
- **Uchafbwynt** – yr uchafbwynt yw pwynt uchaf cyfansoddiad dawns cyfan.
- **Collage** – strwythur cyfansoddiadol sy'n cynnwys darnau o ddeunyddiau amrywiol wedi'u dwyn ynghyd i greu moment gyfan fwyaf beiddgar, moment allweddol o symud fel un, moment o lawenydd.
- **Strwythur Cylchol** – lle mae'r coreograffi yn ailadrodd mewn cylchred, a ddefnyddir yn aml mewn ffurfiau dawns defodol neu draddodiadol.
- **Ffiwg** – lle mae brawddegau a dilyniannau yn dychwelyd wedi'u troshaenu, eu darnio, a'u datblygu.
- **Naratif/Episodig** – lle mae'r ddawns yn adrodd naratif neu mae agweddau yn datblygu mewn episodau.
- **Cyfres** – cyfres o adrannau dawns cysylltiedig ond gwahanol, pob un â'i thema, ei harddull neu ei thempo ei hun, yn debyg i gyfresi cerddorol.
- **Rondo** – darn dawns lle mae adran yn cael ei hailadrodd drwy gydol y ddawns; mae hyn fel cytgan mewn cân. e.e., ABACADA
- **Teiran** – cyfansoddiad sy'n cynnwys tair rhan e.e., ABA.
- **Thema ac amrywiad** – strwythur cyfansoddiadol a nodweddir gan thema o ddilyniannau clir o symudiadau sy'n cael eu defnyddio fel strwythur sylfaenol ar gyfer gwahanol amrywiadau. A1, A2, A3, A4.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Atodiad B: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynaliadwyedd | ✓ | | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | ✓ | | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | ✓ | | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ | |
| Cynhyrchu | ✓ | | |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.